

Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

16 Medi 2020
 Via Zoom
 Nodyn

CSCC	Nicola Britton, Swyddfa CSCC
John Lloyd Jones, Cadeirydd	Adrian Davies, Swyddfa CSCC
Tom Crick, Comisiynydd	Sesiwn ar Strategaeth
Rob Irvine, Comisiynydd	Drafnidiaeth Cymru Gydag
Rob Irvine, Comisiynydd	aelodau o Is-adran Polisi,
Eluned Parrott, Comisiynydd	Cynllunio a Phartneriaethau
Rod Smith, Comisiynydd	Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru
Chris Sutton, Comisiynydd	• Dewi Rowlands, • Kate Clark • Alison Thomas, • Ashley Talbot
Emma Thomas, Comisiynydd	
Ceri Doyle, Comisiynydd	
Helen Howells, Comisiynydd	
Stephen Gifford, Comisiynydd	
Richard Feasey, Comisiynydd	
Tom Wharf, Comisiynydd	

Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

1. Rhoddodd Dewi Rowlands y wybodaeth ddiweddaraf am sut yr oedd y strategaeth drafnidiaeth ddrafft yn datblygu ers iddo siarad â'r comisiwn ddiwethaf ym mis Mehefin. Arweiniodd Kate Clark gyflwyniad yn dangos sut mae'r polisi wedi esblygu drwy drafodaethau gyda rhanddeiliaid, gan dynnu sylw at bum blaenoriaeth ar gyfer cyflawni.
2. Cafodd CSCC drafodaeth eang ar y strategaeth newydd, a oedd yn cynnwys y pwyntiau allweddol:
 - Dylai ysgogiadau polisi i annog newid mewn ymddygiad (e.e. codi tâl ar y ffyrdd) gymryd i ystyriaeth y gwahanol anghenion trafndiaeth mewn ardaloedd wledig a threfol.
 - Bod effaith Covid 19 ar deithio yn rhoi cyfle i ddadansoddi data ar hyblygrwydd economi Cymru i addasu i'r lleihad mewn teithio.

- Her ar fframio'r flaenoriaeth gyda'r nod o *leihau teithio*. Eglurodd y tîm trafnidiaeth eu syniadau (h.y. dod â gwasanaethau'n nes at bobl) gan gydnabod bod angen ystyried hyn ymhellach.
 - Pwysigrwydd cludo nwyddau a logisteg
 - Yr angen i gynaliadwyedd economaidd fod wrth wraidd y strategaeth.
3. Cytunwyd y byddai'r tîm yn dod yn ôl at y Comisiwn i drafod y strategaeth derfynol fel rhan o'u paratodau i'w cyhoeddi yng ngwanwyn 2021.

Camau i'w cymryd

Cyflwyniad i'w e-bostio at CSCC am sylwadau ychwanegol: Ysgrifenyddiaeth

2020 Adroddiad Blynyddol

4. Trafododd y Comisiynwyr adroddiad ar seilwaith digidol a fersiwn drafft o'u hadroddiad blynyddol i 2020.
5. Roedd y comisiynwyr yn hapus i gyhoeddi'r adroddiad seilwaith digidol.
6. Cytunwyd y byddai fersiwn wedi'i diweddarau o'r adroddiad blynyddol yn cael ei pharatoi erbyn diwedd Medi, er mwyn cyhoeddi'r adroddiad ym mis Tachwedd.

Camau i'w cymryd

Sylwadau a chyfraniadau pellach ar yr adroddiad blynyddol i'w cyflwyno erbyn 21

Medi: Pawb

7. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 13 Hydref.